# Canllawiau Rhanbarthol ar Gam-drin Rhieni gan Blant

## BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad y cymeradwywyd gan y bwrdd gweithredol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 25 Ionawr 2022 | 25 Ionawr 2025 |
| F2 | 13 Ionawr 2025 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 29 Ebrill 2025 | 29 Ebrill 2028 |

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi / gweithdrefn / canllaw | Canllawiau Rhanbarthol ar Gam-drin Rhieni gan Blant |
| Cyfnod ymgynghori | 3 Rhagfyr 2021 i 7 Ionawr 2022 |
| Dyddiad cyhoeddi | |
| Dyddiad adolygu | 13 Ionawr 2025 |

## Dosbarthu / gweithredu

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau gweithredu'r polisi/gweithdrefn/canllaw hwn

| | |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | • Rhoi ar wefan y bwrdd diogelu yn yr adran bolisi<br>• Anfon at asiantaethau partner i'w ddosbarthu<br>• Dosbarthu i arweinwyr hyfforddiant asiantaethau partner i'w gynnwys mewn hyfforddiant fel y bo'n briodol<br>• Diweddaru hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu polisi/gweithdrefn/canllaw |
| Pob asiantaeth partner | • Dosbarthu'r polisi/gweithdrefn/canllaw i bob arweinydd gwasanaeth / pennaeth gwasanaeth / arweinydd diogelu / aelod o staff drwy sianeli cyfathrebu priodol, e.e. grwpiau gweithredol lleol<br>• Gosod ar eich gwefan eich hun a chynnwys dolen i wefan Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru https://www.cysur.cymru/<br>• Diweddaru polisïau a gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu'r polisi/gweithdrefn/canllaw fel y bo'n briodol<br>• Diweddaru hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses fel y bo'n briodol |

## Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau ymgymryd â'r canlynol er mwyn rhoi sicrwydd i'r bwrdd o ran lledaenu a gweithredu'r polisi hwn:

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru** | • Ceisio sicrwydd gan asiantaethau partner bod gweithredu wedi digwydd |
| **Asiantaethau partner** | • Rhoi sicrwydd i'r bwrdd diogelu bod y camau gweithredu uchod wedi'u cwblhau |

## Cynnwys

**TUDALEN**

1. DATGANIAD
TUDALEN 4

2. CYFLWYNIAD
TUDALEN 5

3. DIFFINIAD O GAM-DRIN RHIENI GAN BLANT
TUDALEN 6

4. EFFAITH CAM-DRIN RHIENI GAN BLANT
TUDALEN 7

5. CYFFREDINOLRWYDD CAM-DRIN RHIENI GAN BLANT
TUDALEN 8

6. YMATEB RHANBARTHOL
TUDALEN 9

7. SIART LLIF CAM-DRIN RHIENI GAN BLANT
TUDALEN 12

8. YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL
TUDALEN 13

9. MYNEDIAD I GYMORTH
TUDALEN 15

**ATODIAD 1:**

LLWYBR RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU I GYMORTH

**ATODIAD 2:**

CYNNIG RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU O GYMORTH AC YMYRRAETH BENODOL AR GYFER CAM-DRIN RHIENI GAN BLANT

**ATODIAD 3:**

PRAM (MODEL ASESIAD RISG PEGS)

## 1. DATGANIAD

Mae Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i ymateb yn effeithiol i gam-drin rhieni gan blant, gan gynnwys y dioddefwr a'r rhai sy'n arddangos ymddygiad camdriniol. Bydd hyn yn cryfhau ymhellach ein barn bod cam-drin a thrais yn annerbyniol ac na fyddant yn cael eu goddef.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hategu gan ymrwymiad i egwyddorion diogelu plant, dyletswydd gofal i ddinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac amddiffyn oedolion agored i niwed. Bydd pawb sy'n profi neu'n cael eu heffeithio gan drais neu gam-drin yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion.

Mae pob math o drais a cham-drin yn annerbyniol ac mae unrhyw un sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn haeddu ymateb effeithiol ac amserol gan bob gwasanaeth cyhoeddus.

Rhaid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â pholisïau cyffredinol y Sefydliadau Partner Rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac ochr yn ochr ag ymarferion y sefydliadau hyn, gan gynnwys y drafodaeth ddyddiol a phroses Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg. Rhaid defnyddio'r canllawiau hefyd ochr yn ochr â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019).

## 2. CYFLWYNIAD

O fewn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru (2023-2027), ein gweledigaeth yw i bob unigolyn fyw eu bywydau'n rhydd rhag trais, cam-drin, esgeulustod a cham-fanteisio ac i'w hawliau gael eu diogelu.

Mae'r strategaeth yn nodi ein dull rhanbarthol integredig i gyflawni gweledigaeth ar y cyd er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella iechyd a lles unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin, a dwyn i gyfrif y rhai sy'n cyflawni cam-drin o'r fath.

Nod y canllawiau hyn yw darparu canllawiau a fydd yn gwella'r broses o adnabod ac ymateb ac, ymhellach, cefnogi'r gwaith o integreiddio, datblygu a gweithredu cefnogaeth ac ymyrraeth benodol rhwng y plentyn a'r rhiant yn gyson ar draws y rhanbarth.

Gan gydnabod bod cam-drin rhieni gan blant yn fater sy'n effeithio ar bob oedran, mae'r canllaw hwn yn berthnasol i'r berthynas rhiant a phlentyn, gan gynnwys cam-drin rhieni gan blant, pobl ifanc a phlant sy'n oedolion. Mae rhwystrau i gael mynediad at gymorth yn berthnasol, waeth beth fo oedran y plentyn neu'r rhiant, gyda materion penodol yn cyfrannu at bob sefyllfa, e.e. anabledd, gallu a chyfrifoldebau gofalu.

Mae hyn i gyd yn unol â'r nod o sicrhau gostyngiad cynaliadwy mewn trais a cham-drin, gwella canlyniadau i bob unigolyn a theulu yr effeithir arnynt, ac atal cam-drin o'r fath rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Ei nod yw adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus a chyfleoedd cydweithio presennol yn y rhanbarth, a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ymhellach, a chynorthwyo cymunedau lleol, unigolion, aelodau o'r teulu ac asiantaethau i ddarparu ymateb cadarn i gam-drin rhieni gan blant ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.

### Nodau

Nod y polisi hwn yw:

- ategu, dylanwadu a chyfrannu'n uniongyrchol at waith rhanbarthol allweddol wrth ymateb i gam-drin rhieni gan blant
- darparu canllawiau i gefnogi adnabod ac ymateb effeithiol
- cefnogi ymarferwyr rhanbarthol yn eu hymateb i gam-drin rhieni gan blant, yn gyson ac yn rhanbarthol
- annog chwilfrydedd proffesiynol
- sicrhau bod yr ymateb i gam-drin rhieni gan blant yn effeithiol ac yn gyfannol

## 3. DIFFINIAD O GAM-DRIN RHIENI GAN BLANT

Ar hyn o bryd, nid oes diffiniad cyfreithiol o gam-drin rhieni gan blant. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod fwyfwy fel math o drais a cham-drin domestig ac, yn dibynnu ar oedran y plentyn, gall ddod o dan ddiffiniad swyddogol y llywodraeth o drais a cham-drin domestig.

Mae cam-drin o fewn y teulu yn cynnwys cam-drin rhieni gan blant. Gellir galw cam-drin rhieni gan blant hefyd yn drais/cam-drin rhwng pobl ifanc a rhieni neu'n gam-drin rhieni. Gall cam-drin rhieni gan blant gynnwys plant o bob oedran ac nid yw'n cynnwys trais corfforol yn unig. Os yw'r plentyn dros 16 oed, ystyrir bod cam-drin rhieni gan blant yn gam-drin domestig yn unol â'r diffiniad statudol. Mae'n bwysig cofio y gall y math hwn o gam-drin, er ei fod yn cael ei alw'n aml yn gam-drin rhieni gan blant, hefyd gynnwys cam-drin taid neu nain neu frawd neu chwaer ac unrhyw un sydd â rôl rianta, fel gofalwyr a gwarcheidwaid.

Y diffiniad traws-lywodraethol o drais a cham-drin domestig yw unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodi neu fygythiol, trais neu gam-drin rhwng rhai 16 oed neu hŷn sy'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, neu sydd wedi bod felly, waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Er bod y diffiniad hwn yn berthnasol i'r rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn, gall trais a cham-drin gan bobl ifanc tuag at riant yn yr un modd gynnwys plant dan 16 oed.

Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Gartref yn astudio canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 7 Chwefror 2024 er mwyn penderfynu ar ddiffiniad cytûn. Cyfeirir at gam-drin rhieni gan blant hefyd fel trais a cham-drin gan bobl ifanc tuag at riant, a thrais gan bobl ifanc tuag at riant.

Mae'n bwysig cydnabod bod cam-drin rhieni gan blant yn debygol o gynnwys patrwm o ymddygiad. Gall hyn gynnwys nifer o wahanol fathau o ymddygiadau camdriniol, gan gynnwys difrod i eiddo, cam-drin emosiynol, cam-drin corfforol a cham-drin economaidd/ariannol, cam-drin digidol, cam-drin rhywiol, ymddygiad gorfodol a rheolaethol, a cham-drin anifeiliaid anwes. Mae cam-drin digidol yn cyfeirio at pan fydd rhywun yn monitro, yn stelcio, yn aflonyddu, yn bygwth, yn rheolaethu neu'n dynwared unigolyn arall gan ddefnyddio technoleg.

Gall trais a cham-drin ddigwydd gyda'i gilydd neu ar wahân. Gall ymddygiadau camdriniol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, iaith a bygythiadau sy'n gwaradwyddo, bychanu rhiant, difrod i eiddo a dwyn gan riant, ac ymddygiadau rhywioledig dwysach.

## 4. EFFAITH CAM-DRIN RHIENI GAN BLANT

Cynhaliwyd yr astudiaeth gyntaf ar raddfa fawr o drais a cham-drin rhwng rhai yn eu harddegau a rhieni yn y DU gan Brifysgol Rhydychen (gweler http://apv.crim.ox.ac.uk/) rhwng 2010 a 2013.

Disgrifiodd ymarferwyr a rhieni a gyfwelwyd yn yr astudiaeth hon y cam-drin fel cam-drin a oedd yn aml yn cynnwys patrwm o weithredoedd ymosodol, camdriniol a threisgar dros gyfnod hir o amser.

Yn ogystal ag ymosod yn gorfforol ar eu rhieni, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod eu plant wedi chwalu eiddo, cicio tyllau mewn drysau, torri ffenestri, taflu pethau at eu rhieni a gwneud bygythiadau.

Roedd cam-drin geiriol ac ymddygiadau rheolaethol eraill yn gyffredin hefyd. Mae'r patrwm ymddygiad hwn yn creu amgylchedd lle mae rhiant yn byw mewn ofn o'i blentyn ac yn aml yn cyfyngu ar ei ymddygiad ei hun er mwyn osgoi gwrthdaro a chyfyngu ar neu leihau trais.

Canfu'r astudiaeth hon nad oedd un esboniad am y broblem hon. Disgrifiodd teuluoedd amrywiaeth o resymau a welent yn achos trais a cham-drin gan bobl ifanc tuag at riant, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, neu hanes teuluol o drais domestig neu hunan-niweidio. Roedd rhai teuluoedd yn methu esbonio pam roedd eu plentyn mor ymosodol tuag atynt, ar ôl magu plant eraill nad oeddent yn arddangos ymddygiad o'r fath.

Mae cam-drin rhieni gan blant yn peri nifer o heriau i'r teuluoedd sy'n ei brofi ac ymarferwyr sy'n dod ar ei draws yn eu gwaith gyda theuluoedd. Her sylfaenol sy'n sail i'r anawsterau hyn yw'r distawrwydd ynghylch cam-drin rhieni gan blant.

Mae'r ymdeimlad o ynysu, stigma a chywilydd a deimlir gan deuluoedd sy'n profi'r math hwn o drais yn cael ei waethygu gan ddiffyg cydnabyddiaeth a pholisi swyddogol, a hefyd y diffyg ymwybyddiaeth o gam-drin rhieni gan blant o fewn cymdeithas.

Mae cam-drin rhieni gan blant yn fater cymhleth, a gall y ffiniau rhwng y 'dioddefwr' a'r 'troseddwr' fod yn aneglur. Yn aml (er nad bob amser), mae'r trais yn digwydd yng nghyd-destun problemau teuluol presennol

a gall fod yn waeth os oes problemau yn ymwneud â galluedd, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Os yw'r dioddefwyr yn hŷn, mae cyfrannau uchel o adroddiadau yn cynnwys cam-drin gan blentyn neu ŵyr neu wyres.

Mae astudiaethau ac arolygon mwy diweddar yn cynnwys:

- *Reports of child/adolescent family violence in calls to Family Lives UK helpline (2020-2022)*
- *The impact of Child to Parent Abuse: Who does it affect and how PEGS (2022)*
- *Child to Parent Abuse: Highlighting the impact to parents with hearing or sight impairments PEGS (2023)*
- *Child to Parent Abuse: The impact during school holidays PEGS (2023)*

## 5. CYFFREDINOLRWYDD

Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn debygol mai dim ond canran fach o ddigwyddiadau gwirioneddol fydd digwyddiadau o gam-drin rhieni gan blant a adroddir i'r heddlu a'r gwasanaethau statudol a bod y lefelau gwirioneddol yn debygol o fod yn llawer uwch.

Mae'n anodd sefydlu pa mor gyffredin ydyw. Mae diffyg ymchwil benodol i gam-drin rhieni gan blant ac mae'r data yn gyfyngedig iawn yn fyd-eang. O'r ymchwil gyfyngedig sydd ar gael, awgrymir bod tua 3% o boblogaeth y DU yn profi cam-drin rhieni gan blant.

Fel gyda cham-drin domestig, mae cam-drin rhieni gan blant yn aml yn seiliedig ar ryw, gyda'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu cyflawni gan feibion yn erbyn eu mamau, er bod dynion a bechgyn yn ddioddefwyr hefyd.

Mae data SafeLives wedi dangos, ymhlith pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n achosi niwed i aelodau'r teulu, mai trais corfforol oedd y math mwyaf cyffredin o gam-drin, gyda 57% o bobl ifanc yn achosi niwed corfforol a bron i chwarter (24%) yn dangos ymddygiad cenfigennus a rheolaethol.

Mae rhai ystadegau diweddar a gasglwyd mewn perthynas â cham-drin rhieni gan blant yn cynnwys:

- Cynnydd o 95% yn nifer yr adroddiadau i'r Heddlu Metropolitanaidd rhwng 2012 a 2016.
- Cofnododd Parentline 22,537 o alwadau yn adrodd am blant sy'n dreisgar tuag at rieni dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Cynnydd o 70% mewn digwyddiadau dros y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn 2020.
- Yn ôl Adoption UK, bydd 65% o deuluoedd mabwysiedig yn profi cam-drin rhieni gan blant.

Mae pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn destun adroddiadau annigonol ac mae rhieni, yn ddealladwy, yn arbennig o amharod i ddatgelu neu adrodd am drais neu gam-drin gan eu plentyn. Mae rhieni'n adrodd

am deimladau o ynysu, euogrwydd a chywilydd ynghylch cam-drin eu plentyn tuag atynt, ac yn ofni y gallai eu sgiliau rhianta gael eu cwestiynu ac y byddant yn cael eu beio neu eu gwrthod gan y rhai y maent yn datgelu'r trais iddynt.

Mae llawer o rieni'n poeni na fydd eu dioddefaint yn cael ei gymryd o ddifrif neu, os cânt eu cymryd o ddifrif, y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif ac y gallai eu plentyn gael ei gymryd oddi wrthynt a/neu ei droseddoli.

## 6. YMATEB RHANBARTHOL

Fel rhanbarth, rydym wedi nodi'r angen i wella ymarfer o amgylch cam-drin rhieni gan blant yn rhanbarthol. Rydym wedi gweithio gyda Parent Educational Growth Support (PEGS) i gefnogi hyn ac i lywio ein dull rhanbarthol.

Crëwyd PEGS yn 2019 mewn ymateb i'r diffyg cefnogaeth sydd ar gael i rieni sy'n profi cam-drin rhieni gan blant, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae cam-drin rhieni gan blant wedi'i nodi neu lle mae amheuaeth o hynny.

Sefydlwyd PEGS gan 'arbenigwyr trwy brofiad', a'i nod yw codi ymwybyddiaeth a rhoi llwyfan i leisiau'r dioddefwyr cam-drin hyn sydd ar hyn o bryd yn anweledig ac yn anhysbys.
Mae dau brif linyn i'w gwaith: cefnogi rhieni, a hyfforddi gweithwyr proffesiynol.

Er y gallai fod gofyn i ymarferwyr ymateb i un digwyddiad o gam-drin rhieni gan blant, mae'n bwysig cael dealltwriaeth o batrwm ymddygiad y tu ôl i ddigwyddiad a hanes y berthynas rhwng y person ifanc a'r rhiant.

Mae hefyd yn bwysig deall patrwm ymddygiad yn yr uned deuluol; gall brodyr a chwiorydd hefyd gael eu cam-drin neu fod yn gamdriniol. Efallai hefyd fod hanes o gam-drin domestig, neu gam-drin domestig cyfredol, rhwng rhieni'r person ifanc.

Yn rhanbarthol, mae angen i ni annog ac ymarfer chwilfrydedd proffesiynol wrth ymateb i achosion o gam-drin rhieni gan blant. Mae ymarfer chwilfrydedd proffesiynol yn trosi'n allu a sgiliau cyfathrebu ymarferwyr wrth archwilio a deall beth sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau neu dderbyn pethau ar yr olwg gyntaf. Yn ein hymateb, mae angen i ni sicrhau bod y ffocws ar angen, llais a "phrofiad bywyd" y person neu'r teulu dan sylw.

Mae'n bwysig cydnabod yr effeithiau y gall cam-drin rhieni gan blant eu cael ar y rhiant a'r plentyn. Os cynigir/darperir cymorth, rhaid i hyn fod yn gyfannol o ran cydnabod y gefnogaeth/ymyriadau gan ddioddefwyr cam-drin a'r unigolyn sy'n cyflawni'r ymddygiad.

Fel rhanbarth, rydym wedi ymrwymo i edrych ar gyd-destun ehangach cam-drin rhieni gan blant, yn enwedig os yw'r person sy'n 'cyflawni' yr ymddygiadau yn blentyn yn ôl y gyfraith. Rydym wedi ymrwymo i ddeall beth y gallai'r ymddygiadau hyn ei ddweud am anghenion y plentyn a beth y gallai'r ymddygiad hwn ei awgrymu.

Yn aml, mae'n anodd arsylwi neu aseinio labeli 'troseddwr' a 'dioddefwr' gyda cham-drin rhieni gan blant ac mae pryderon sylweddol ynghylch troseddoli person ifanc am ei ymddygiad, a'r effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar ei gyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol.

Rhaid i ymarferwyr geisio osgoi defnyddio termau fel 'cyflawnwr', yn enwedig wrth weithio gydag achosion lle mae'r person sy'n cyflawni ymddygiad camdriniol yn blentyn neu'n berson ifanc. Gall yr iaith hon fod yn niweidiol i debygolrwydd y plentyn neu berson ifanc o ymgysylltu a sut mae'n gweld ei hun. Gall hefyd fod yn niweidiol i ymgysylltiad y rhieni sy'n profi cam-drin, gan ei bod hi'n debygol na fyddent am i'w plant gael eu cyfeirio atynt fel 'troseddwyr'.

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a rhieni geisio nodi ffactorau risg yn gynnar a gweithio gyda'r teulu i ddarparu cefnogaeth gynnar er mwyn osgoi sefyllfaoedd o argyfwng.

Mae ystyried yr uchod hefyd yn bwysig iawn wrth weithio gyda dioddefwyr hŷn. Efallai na fydd y person yn adnabod nac yn uniaethu â'r termau 'troseddwr' a 'dioddefwr' a gall hyn beri iddynt ddatgysylltu rhag cefnogaeth neu ymyrraeth.

Mae ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith bod neiniau a theidiau sy'n cyflawni rôl rhiant, naill ai drwy drefniadau teuluol ffurfiol neu anffurfiol, yn darparu gofal i blant â chyfraddau uwch o anghenion addysg arbennig a thrawma ond yn aml gydag ychydig iawn o hyfforddiant, cymorth emosiynol na chymorth ariannol, neu ddim o gwbl (Selwyn a Nandy, 2012).[1]

Yn aml, mae ceisio cymorth drwy ymddygiad ac ymgysylltiad yn cael ei ysgogi gan geisio cefnogaeth i'r ŵyr neu'r wyres. Gall dioddefwyr hŷn leihau neu esgusodi ymddygiad yr ŵyr neu'r wyres drwy geisio gwneud iawn am ymddieithrio oddi wrth rieni (Dewis Choice, 2021).

Yn yr un modd, gall dioddefwyr rhiant hŷn, sy'n darparu cefnogaeth i blant sy'n oedolion sydd yn camddefnyddio sylweddau, ag anghenion iechyd corfforol neu feddyliol, yn ddigartref neu ag anawsterau ariannol, gael eu cymell gan awydd i

[1] Selwyn, J. a Nandy, S. (2012). Kinship care in the UK: using census data to estimate the extent of formal and informal care by relatives. Child & Family Social Work, [ar-lein] 19(1), tt.44–54. Ar gael yn: https://research-information.bris.ac.uk/en/publications/kinship-care-in-the-uk-using-census-data-to-estimate-the-extent-o [Wedi'i gyrchu 2 Medi2021].

geisio cymorth a chefnogaeth i'r plentyn sy'n oedolyn wrth gydnabod risg uwch iddyn nhw eu hunain a/neu aelodau eraill o'r teulu (Dewis Choice, 2021). Efallai fod gan rieni blentyn hŷn hefyd sydd ag anawsterau dysgu / anawsterau ymddygiad, a all gael effaith.

O fewn cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n bwysig bod person yn cymryd cyfrifoldeb am ei ymddygiad. Fodd bynnag, mae'n hanfodol yma nodi bod angen i'r dull a gymerir fod ar sail achos wrth achos, gan ystyried oedran, cam datblygiadol, ac anghenion yr unigolyn sy'n arddangos ymddygiad camdriniol.

Mae'n bwysig cydnabod efallai na fydd person ifanc yn adnabod ei ymddygiad fel cam-drin, a allai rwystro ei ymgysylltiad â gwasanaethau. Dylid cynnig cymorth i blant a phobl ifanc yn seiliedig ar eu hanghenion unigol, gydag amrywiaeth o ymyriadau fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at y cymorth arbenigol sydd ei angen arno, gan osgoi troseddoli diangen. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o'r berthynas a'r hanes rhwng y rhiant a'r person ifanc.

Er bod angen mynd ati'n ofalus wrth ddefnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys yng nghyd-destun trais a cham-drin domestig, yng nghyd-destun achosion o gam-drin rhieni gan blant, dylid ystyried datrysiadau y tu allan i'r llys neu ymateb diogelu cofleidiol ochr yn ochr ag ymateb cyfiawnder troseddol gan fod y rhan fwyaf o rieni yn dymuno meithrin a chynnal eu perthynas rhiant-plentyn ac nad ydynt am i'w plentyn gael ei droseddoli.

Mae hyn yn golygu nad yw ymatebion nodweddiadol i drais a cham-drin domestig sy'n dwyn troseddwyr i gyfrif bob amser yn briodol. Mae ymarferwyr yn tynnu sylw at yr angen am ymatebion wedi'u teilwra i gam-drin rhieni gan blant yn hytrach na dibynnu ar raglenni rhianta generig a hefyd yn nodi'r angen i symud i ffwrdd o'r pwyslais ar gyfrifoldeb rhieni a beio rhieni.


Gall cam-drin rhieni gan blant gael canlyniadau difrifol ac weithiau angheuol, ac mae angen i ymatebwyr fod yn ymwybodol o'r risg a achosir gan y math hwn o gam-drin domestig a chymryd camau priodol i amddiffyn y rhai sydd mewn perygl. Mae'n bwysig bod person ifanc sy'n defnyddio ymddygiad camdriniol yn erbyn rhiant neu aelod o'r teulu yn derbyn ymateb diogelu.

Dylai ymatebwyr ddefnyddio eu disgresiwn a'u barn broffesiynol wrth ymdrin ag achosion o gam-drin rhieni gan blant, a gweithio gyda'r rhiant i nodi'r ymateb priodol.

Dylai'r rhiant sy'n ddioddefwr hefyd dderbyn ymateb a chefnogaeth briodol i gam-drin domestig. Mae rhieni'n adrodd am deimladau o ynysu, euogrwydd a chywilydd ynghylch cam-drin eu plentyn tuag atynt, ac yn ofni y gallai eu sgiliau rhianta gael eu cwestiynu ac y byddant yn cael eu beio neu eu gwrthod gan y rhai y maent yn datgelu'r cam-drin iddynt.

Nod y siart llif isod yw rhoi canllawiau wrth ymateb i gam-drin rhieni gan blant. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac mae angen ei ddilyn yn hyblyg yn unol â rolau, sefydliadau a pholisïau ategol.

**7.**




*Asesiad PRAM (i'r rhai dan 18 oed)

**NODER: Datblygwyd PRAM (Model Asesu Risg PEGS) i helpu i nodi cam-drin rhieni gan blant o fewn y teulu. Mae'r ddogfen yn gryno'n bwrpasol ac yn canolbwyntio ar adnabod cam-drin rhieni gan blant, y math o ymddygiadau camdriniol ac amlder digwyddiadau. Gweler Atodiad 3.**

## 8. YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL

### Amodau mechnïaeth

Wrth ystyried amodau mechnïaeth, mae'n hollbwysig ystyried agwedd diogelwch y rhai yn y cyfeiriad mechnïaeth. Mae angen sefydlu a yw defnyddio'r cyfeiriad cartref fel y cyfeiriad mechnïaeth yn peryglu unrhyw un.

### Oedran yr unigolyn sy'n arddangos ymddygiad camdriniol

Os yw'r plentyn o dan 16 oed, yna bydd hyn yn gofyn am ymateb diogelu yn unol ag argymhellion y llywodraeth.

Os yw'n 16 oed neu'n hŷn, dylai cydweithwyr ystyried ai diogelu yw'r ymateb mwyaf priodol, yn seiliedig ar yr achos unigol.

Dylid bob amser ystyried trafodaethau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg a diogelu cydgysylltiedig lle mae cam-drin rhieni gan blant yn cael ei amau neu ei nodi.

### Rôlau/cyfrifoldebau gofalu o fewn y berthynas

Gall dioddefwr hŷn fod yn gofalu am ŵyr neu wyres neu blentyn sy'n oedolyn, er enghraifft, sydd â salwch corfforol neu feddyliol, sy'n camddefnyddio sylweddau, sy'n ddigartrefedd neu sy'n cael anawsterau ariannol. Gallent hefyd fod â phlentyn hŷn ag anawsterau dysgu / anawsterau ymddygiad sy'n cael effaith. I'r gwrthwyneb, gall dioddefwr hŷn fod yn ddibynnol ar ŵyr neu wyres neu blentyn sy'n oedolyn am ofal a chymorth. Gall fod amgylchiadau hefyd lle mae cyd-ddibyniaeth.

Gall mwy o anghenion gofal a chymorth roi person hŷn mewn sefyllfa o ddibyniaeth ar ŵyr neu wyres neu blentyn sy'n oedolyn, gan newid y ddeinameg pŵer yn y berthynas, lleihau annibyniaeth ac ymreolaeth, a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer cam-drin. Gellir priodoli arwyddion o gam-drin dioddefwyr hŷn sydd ag anghenion gofal a chymorth ar gam i ddirywiad mewn iechyd corfforol a symudedd. Gall plant sy'n oedolion hefyd ddefnyddio eu rôl ofalu i guddio cam-drin, er enghraifft drwy greu unigedd eithafol, mynd gyda'r person hŷn ym mhob rhyngweithiad, gorliwio anghenion gofal, a phortreadu eu hunain fel rhai anhepgor i'r rhiant hŷn.

### Problemau anabledd a galluedd

### Galluedd –

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Cymru a Lloegr) yn diffinio ac yn amddiffyn hawliau oedolion sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd heb alluedd. Mae egwyddor gyntaf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn nodi bod yn rhaid tybio bob amser bod gan berson alluedd llawn oni bai y profir fel arall. Mae galluedd yn benodol i benderfyniad a gall person fod â'r galluedd i wneud rhai penderfyniadau – er enghraifft, pa bryd

maen nhw'n codi yn y bore neu beth maen nhw'n ei fwyta – ond heb y galluedd i wneud penderfyniadau cymhleth – er enghraifft, rheoli cyllid.

Er bod nifer o resymau pam y gellir ystyried bod person yn brin o alluedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, bydd cyfran sylweddol ohonynt yn ymwneud â diagnosis o ddementia. Ar hyn o bryd, mae tua 850,000 o bobl yn y DU yn byw gyda dementia. Er mai data cyfyngedig sydd ar gael ar gyffredinolrwydd a chydfodolaeth dementia a cham-drin domestig, mae ymchwil yn awgrymu bod person â dementia yr un mor debygol o brofi cam-drin domestig â pherson heb ddementia ac mae rhywfaint o ymchwil i awgrymu y gallai'r gyffredinolrwydd fod yn uwch. Gall person â dementia hefyd brofi'r un ystod o ddifrifoldeb o bob math o gam-drin domestig - corfforol, seicolegol, rhywiol, emosiynol, economaidd, ac ymddygiad gorfodol a rheolaethol - ond gall y cam-drin effeithio arno mewn ffyrdd unigryw (Dewis Choice, 2021).

Wrth i ddementia waethygu, gall gallu person i ddiogelu ei hun a rheoli ei risgiau ei hun gael ei effeithio gan ddirywiad mewn galluedd meddyliol. Efallai na fydd y person bellach yn adnabod yr arwyddion bod y cam-drin yn gwaethygu ac na fydd yn gallu defnyddio strategaethau sydd wedi gweithio yn y gorffennol, fel symud ei hun i le diogel a cheisio cymorth. Gall person â dementia hefyd golli'r gallu i ddeall a gwneud penderfyniadau am lefel y risg y mae'n agored iddi gan y person sy'n cam-drin (Dewis Choice, 2021).

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gall cam-drin a gyflawnir gan blant sy'n oedolion sy'n darparu gofal, sydd ag atwrneiaeth neu sy'n ddirprwyon a benodwyd gan lys ar gyfer rhiant sydd heb alluedd fod yn destun erlyniad am gam-drin neu esgeulustod (Williams, J., Wydall, S., Clarke, A. H., 2013).

**Trefniadau tai**

Mae'n werth nodi nad yw tai addas ar gael bob amser mewn achosion o gam-drin rhieni gan blant. Mewn achosion pan fydd hyn yn digwydd, mae'n bwysig bod asiantaethau'n sicrhau bod digon o ddiogelu ar waith a bod y cynlluniau diogelwch cywir yn cael eu rhoi ar waith.

Mewn achosion o gam-drin rhieni gan blant, gall nodi opsiynau ac atebion tai priodol fod yn hynod gymhleth.

Os yw'r plentyn o dan 18 oed, yna o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu llety i'r plentyn os na all fyw mwyach gyda phobl sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Pan fo'r person sy'n arddangos ymddygiad camdriniol dros 16 oed, dylai'r dull tai barhau i fod yn berthnasol yn yr un modd â cham-drin gan bartner agos.

Bydd gorchmynion meddiannaeth a gorchmynion peidio ag ymyrryd yn berthnasol yma, ond ni fydd pob rhiant eisiau'r gorchmynion amddiffynnol hyn.

**Brodyr a chwiorydd a'r teulu ehangach**

Gall unigolion sy'n arddangos ymddygiadau cam-drin rhieni gan blant hefyd fod yn dreisgar neu'n gamdriniol tuag at eu brodyr a'u chwiorydd a/neu'r teulu ehangach.

Pan gaiff cam-drin rhieni gan blant ei nodi neu ei amau, dylid ystyried diogelwch pob aelod agos o'r teulu a rhoi ymatebion ar waith ar sail yr hyn sy'n hysbys.

Mae'n hanfodol nad yw'r effaith a'r risg i frodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu, o ganlyniad i gam-drin rhieni gan blant, yn cael eu lleihau na'u hanwybyddu yn ein hymateb.

## 9. Mynediad at wasanaethau cymorth

Cyfeiriwch at ddogfen Llwybr Rhanbarthol i Gymorth Canolbarth a Gorllewin Cymru (Atodiad 1) a Chynnig Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru o Gymorth ac Ymyrraeth Benodol ar gyfer Cam-drin Rhieni gan Blant (Atodiad 2).

## ATODIAD 1 – LLWYBR RHANBARTHOL I GYMORTH CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

## ATODIAD 2 – CYNNIG RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU O GYMORTH AC YMYRRAETH BENODOL AR GYFER CAM-DRIN RHIENI GAN BLANT

Datblygwyd y ddogfen ranbarthol hon i gefnogi ymateb rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i gam-drin rhieni gan blant.

Nod y ddogfen yw symleiddio mynediad at gymorth ac ymyrraeth benodol ar gyfer cam-drin rhieni gan blant ar draws y rhanbarth.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â’r ddogfen Llwybr Rhanbarthol i Gymorth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan y bydd yr holl ddarparwyr a amlinellir yn y ddogfen honno yn gallu darparu cymorth penodol lleol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn unol â’r strategaeth ranbarthol.

Rydym hefyd am gydnabod bod y ddogfen hon yn fyw a bydd yn parhau i esblygu gyda datblygiad gwaith penodol i gam-drin rhieni gan blant ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Rydym hefyd yn gweithio gyda PEGS, sef sefydliad cam-drin rhieni gan blant cenedlaethol sy’n cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth i rieni a gweithwyr proffesiynol sy’n profi neu’n gweithio gyda cham-drin rhieni gan blant.

hello@pegsupport.com

| **Ardal awdurdod lleol** | **Ymyrraeth/rhaglen** | **Sefydliad** | **Atgyfeiriad at y man lle rhoddir gofal** |
|---|---|---|---|
| Sir Benfro | Break4Change (yn ogystal ag opsiynau dosbarthu unigol eraill) | Tîm o Amgylch y Teulu Sir Benfro | https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaethau-i-blant. TAF Referral Form CURRENT MASTER S |
| | Prosiect Plant a Phobl Ifanc | Hafan Cymru | -Children-Referral-Form CYPHAFAN.doc› |
| Sir Gaerfyrddin | Prawf ar gyfer y Dyfodol | Threshold DAS | https://threshold-das.org.uk/cy/project-y/ |
| Ceredigion | Break4Change<br><br>Grŵp cymorth rhieni ar-lein ar gyfer cam-drin rhieni gan blant<br><br>Ar Trac | DAS Gorllewin Cymru | ar_trac_westwales_welsh.pdf<br>b4c leaflet english.pdf |
| | Break4Change (yn ogystal ag opsiynau dosbarthu unigol eraill) | Tîm o Amgylch y Teulu Ceredigion | v2 TAF Request for Service eng CM 20.0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 1545 572649 |
| Powys | Break4Change<br><br>Grŵp cymorth rhieni ar-lein ar gyfer cam-drin rhieni gan blant. (Noder: darparwch opsiynau dosbarthu amgen unigol)<br><br>Ar Trac | Calan DVS | ar_trac_break4change _npt_powys_cym_04.p<br><br>ar_trac_break4change _npt_powys.pdf |

**ATODIAD 3 – PRAM (MODEL ASESU RISG PEGS)**

Cofiwch fod PRAM er mwyn helpu i nodi a oes amheuaeth bod cam-drin rhieni gan blant yn digwydd yn y cartref teuluol. Mae'r ddogfen yn gryno'n bwrpasol ac yn canolbwyntio ar adnabod cam-drin rhieni gan blant, y math o ymddygiadau camdriniol ac amlder digwyddiadau. Gellir casglu unrhyw wybodaeth arall yn ystod / ar ôl trafodaeth ddiogelu broffesiynol.

**Ydy'r rhiant/gofalwr/gwarcheidwad mewn ofn? Os mai'r ateb yw:**

• Ydy, drwy'r amser – byddai hyn yn dangos bod cam-drin rhieni gan blant yn digwydd yn y cartref.

• Weithiau – byddai hyn yn dangos, heb gefnogaeth/ymyrraeth, fod posibilrwydd uchel y bydd y sefyllfa yn troi'n gam-drin rhieni gan blant (mae rhywfaint o risg eisoes gyda'r ymateb weithiau, felly ewch ymlaen fel pe bai cam-drin rhieni gan blant yn cael ei amau).

• Nac ydy, byth – er nad yw'r ymddygiadau a brofir yn iawn, er mwyn i gam-drin rhieni gan blant gael ei amau neu ei adnabod, mae'r rhiant/gofalwr/gwarcheidwad yn ofni'r plentyn / person ifanc neu ei ymateb. Os nac ydy yw'r ymateb, llenwch y PRAM o hyd oherwydd efallai nad yw'r rhiant yn ymwybodol ei hun o'r cam-drin rhieni gan blant.

**Mathau o ymddygiadau**

Dyma'r mathau mwyaf cyffredin o ymddygiadau cam-drin o fewn teuluoedd lle mae cam-drin rhieni gan blant wedi'i nodi neu lle mae amheuaeth ohono. Trwy gael opsiynau dyddiol, wythnosol a misol, gall y canlyniad fapio syniad o brofiadau a lefel risg y teulu hwnnw yn gyflym ac yn effeithiol.

**Cynnydd mewn ymddygiadau**

Erbyn i riant ddod atoch am help, mae'n debygol ei fod wedi bod yn profi cam-drin rhieni gan blant am gyfnodau hir cyn gwneud y datgeliad cychwynnol hwnnw.

• Os yw'r ymddygiad wedi bod yn digwydd ers llai na dau fis, yna mae atgyfeiriad i ddiogelu o dan yr ymateb diogelu yn briodol.

• Os yw'r ymddygiad wedi bod yn digwydd ers dau i chwe mis a bod y teulu'n cael ei adael heb unrhyw gefnogaeth, mae'n debygol y bydd yn gwaethygu ymhellach. Yn yr achos hwn, gellid amau cam-drin rhieni gan blant, a'r ymateb sydd ei angen yw ymateb diogelu ar gyfer cam-drin rhieni gan blant fel risg ganolig.

• Os yw'r ymddygiad wedi bod yn digwydd ers chwe mis neu fwy a'i bod yn debygol y bydd yr ymddygiadau'n gwaethygu, ymatebwch fel angen diogelu ar gyfer pob aelod o'r cartref gan fod cam-drin rhieni gan blant wedi'i nodi fel risg ganolig/uchel.